

Gwobr Cyfraniad Gweithredol at Ymchwil mewn Chwaraeon

CEFNDIR

Sefydlwyd y wobr i ysgogi cyffro ymhlith myfyrwyr israddedig y flwyddyn olaf i ymgysylltu â'r broses traethawd ymchwil gyda'r nod o gyhoeddi canfyddiadau eu hymchwil mewn cynhadledd fyfyrwyr. Sefydlwyd y wobr yn 2019 gan yr Adran Gwyddorau Chwaraeon, a bydd yn parhau i gael ei dyfarnu cyhyd ag y bydd yr adran yn penderfynu. Bydd yr enillydd yn ennill tystysgrif gwobr Prifysgol Glyndŵr a'r cyfle i gyflwyno canfyddiadau ei (h)ymchwil yng nghynhadledd fewnol myfyrwyr yr adran Gwyddor Chwaraeon a gynhelir ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam, lle bydd y wobr yn cael ei dyfarnu.

MEINI PRAWF GWOBR BENODOL

Dyfarnir y wobr i'r myfyriwr graddedig/cyn-fyfyriwr cymwys sydd wedi:

- Dangos gwreiddioldeb ac arloesedd yn ei th/draethawd ymchwil, sydd yn ei dro wedi'i dderbyn gan Gynhadledd Myfyrwyr Cymdeithas Gwyddorau Chwaraeon ac Ymarfer Corff Prydain, fel cynhadledd cyn cyhoeddi ar ôl graddio.

(Er mwyn i'r cyhoeddiad hwn fod yn gymwys ar gyfer y wobr hon, mae'n rhaid iddo fod wedi'i dderbyn i'w gyhoeddi cyn pen 3 blynedd o Raddio. Bydd angen darparu tystiolaeth o dderbyn cyhoeddiad gan Gymdeithas Gwyddorau Chwaraeon ac Ymarfer Corff Prydain ar ffurf llythyr/e-bost gan y myfyriwr graddedig/cyn-fyfyriwr).

- Y panel yn ystyried y cyhoeddiad yn arddangos cyfraniad rhagorol a newydd at ymchwil yn y maes hwnnw.

(Bydd angen i'r myfyriwr graddedig/cyn-fyfyriwr ddarparu llythyr eglurhaol yn nodi sut mae'r ymchwil yn newydd ac wedi ychwanegu at gorff gwybodaeth sy'n bodoli eisoes yn ystod y broses enwebu er mwyn cael ystyriaeth gan y panel).

Bydd myfyrwyr graddedig/cyn-fyfyriwr cymwys yn cael eu henwebu gan dîm y rhaglen ar ôl cael cadarnhad o'u derbyniad i Gynhadledd Fyfyriwr Cymdeithas Gwyddorau Chwaraeon ac Ymarfer Corff Prydain ac wedi darparu llythyr eglurhaol yn nodi sut mae eu hymchwil yn newydd ac wedi ychwanegu at gorff gwybodaeth sy'n bodoli eisoes.

Bydd gofyn i unrhyw un sy'n enwebu ddarparu rhesymau penodol dros ei enwebiad ar y ffurflen enwebu, gan ddangos yn glir sut mae'r unigolyn wedi bodloni'r meini prawf.

Gwneir y penderfyniad terfynol ar enillydd/enillwyr y wobr gan banel sy'n cynnwys dau aelod o staff academiaidd o'r Gyfadran sy'n allanol i'r maes pwnc Gwyddor Chwaraeon a'r Deon Cyswllt (Ymchwil) neu'r Deon Cyswllt ar gyfer y maes pwnc Gwyddor Chwaraeon yn y Gyfadran (a fydd yn gwasanaethu fel Cadeirydd).

RHEOLIADAU GWOBRAU'R BRIFYSGOL

- I fod yn gymwys am wobr, rhaid i enwebeion fod wedi astudio ym Mhrifysgol Glyndŵr neu yn un o'i sefydliadau rhagflaenol ac wedi cael gwobr gan Brifysgol Glyndŵr, Prifysgol Cymru, Prifysgol Caer, Edexcel neu un o'i chyrсияu Proffesiynol. Nid yw hyn yn cynnwys myfyrwyr sy'n astudio yng Ngholegau/Sefydliadau Partner, nac ychwaith graddau a addysgir yn llwyr drwy ddysg ar-lein o bell.
- Mae gwobrau ar gael i gyn-fyfyrwyr llawn amser neu ran amser a oedd wedi cofrestru ym Mhrifysgol Glyndŵr neu unrhyw un o'i sefydliadau rhagflaenol, yn amodol iddynt fodloni'r meini prawf cymhwysedd fel a nodir yn y rheoliadau gwobr unigol.
- Ystyrir unrhyw enwebiadau gan y panel. Gellir dyfarnu'r wobr hon i hyd at dri chyn-fyfyriwr mewn blwyddyn benodol.
- Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ymatal rhag dyfarnu gwobr benodol os, mewn unrhyw flwyddyn, yr ystyrir nad yw'r lefel hanfodol o gyflawniad wedi'i bodloni.
- Mae'n bosibl i gyn-fyfyriwr beidio â chael ei (h)ystyried os na lwyddodd i dalu ei ffioedd yn llawn ac unrhyw daliadau eraill sy'n ddyledus i Brifysgol Glyndŵr neu unrhyw un o'i sefydliadau rhagflaenol, yn cynnwys dychwelyd unrhyw offer neu eitemau'r llyfrgell a fenthycwyd.
- Gellir enwebu cyn-fyfyriwr unwaith y flwyddyn yn unig, bydd y broses enwebu yn cael ei chynnal fis Mawrth bob blwyddyn, ar ôl dyddiad cau cyflwyno papur i'r gynhadledd ac wedi i'r cyn-fyfyriwr gael cyfle i gael derbyniad a darparu cadarnhad o hyn ynghyd â llythyr eglurhaol yn ôl y meini prawf gwobr benodol.
- Rhaid enwebu'r cyn-fyfyrwyr cyn pen tair blynedd iddynt Raddio.